# PA GYMORTH ARIANNOL FYDDA I'N EI GAEL FEL PRENTIS?

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Os ydych chi wedi gwneud y penderfyniad doeth i fod yn brentis, llongyfarchiadau! Byddwch chi'n dysgu yn y gwaith ac yn rhoi hwb i'ch gyrfa, ond bydd gennych chi hawl hefyd i gael cyflog a buddion i weithwyr.**

**Edrychwch ar rai o'n cwestiynau cyffredin isod i gael rhagor o wybodaeth.**

## FAINT FYDDA I'N CAEL FY NHALU?

Fel isafswm, rhaid i chi gael yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer Prentisiaid, sef £6.40 yr awr ym mis Ebrill 2024. Os ydych chi'n 19 oed neu'n hŷn ac wedi cwblhau eich blwyddyn gyntaf, mae gennych hawl i'r gyfradd Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer eich oedran a allai fod yn fwy.

## OES MODD I BRENTISIAID GAEL MWY O GYFLOG NA'R ISAFSWM CYFLOG CENEDLAETHOL AR GYFER PRENTISIAID?

Oes. Bydd llawer o gyflogwyr yn talu mwy na'r cyfraddau isafswm ac yn cynnig buddion sy'n fwyfwy cystadleuol. Gallwch edrych ar y swyddi gwag sydd ar gael a'r buddion y mae cyflogwyr yn tynnu sylw atyn nhw drwy'r Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag. Mae swyddi newydd yn cael eu hychwanegu bob dydd felly mae'n werth edrych ar y wefan yn rheolaidd: llyw.cymru/chwilio-am-brentisiaeth

## A YW CYFLOGWYR YN CYNNIG UNRHYW FUDDION ERAILL?

Bydd eich contract cyflogaeth yn nodi eich hawl i dâl gwyliau, salwch ac unrhyw fuddion eraill. Efallai y bydd rhai cyflogwyr hefyd yn cynnig cymhellion eraill fel teithio am bris gostyngol ar drafnidiaeth gyhoeddus, aelodaeth o gampfa, a mwy.

## ALLA I GAEL HELP GYDA CHOSTAU GOFAL PLANT?

Os ydych chi'n byw yng Nghymru, wedi cofrestru ar gwrs addysg bellach sydd o leiaf 10 wythnos o hyd ac yn rhiant neu'n warcheidwad i blentyn 3 i 4 oed, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i Gymru. Am ragor o wybodaeth, ewch i: llyw.cymru/cynnig-gofal-plant-cymru-ymgyrch

**I gael rhagor o wybodaeth, chwiliwch**

**PRENTISIAETHAU CYMRU**

**DEWIS DOETH**

Prentisiaethau
Apprenticeships